
Cyfnewid fideo brys

Penderfyniad i gymeradwyo gwasanaeth arfaethedig
Sign Language Interactions

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Ionawr 2022

Cynnwys

Adran

- | | |
|---------------------------|---|
| 1. Trosolwg | 1 |
| 2. Cyflwyniad a chefnidir | 3 |

1. Trosolwg

Mae gwasanaethau fideo brys yn ffordd o alluogi pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i gyfathrebu'n effeithiol trwy wasanaethau telathrebu â phobl nad ydynt yn defnyddio BSL. Mae'r defnyddiwr BSL byddar yn gwneud galwad fideo gan ddefnyddio dyfais gysylltiedig i ffonio person â chlyw mewn canolfan alwadau. Mae'r dehonglydd yn trosi'r hyn y mae'r defnyddiwr byddar yn ei ddweud i Saesneg llafar ar gyfer y person â chlyw, ac yn arwyddo'r hyn y mae'r person â chlyw yn ei ddweud i'r defnyddiwr byddar.

Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cyfathrebu¹ ddarparu, neu contractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo brys 24/7 a gymeradwyr gan Ofcom am ddim.² Bu i ni hefyd nodi'r meini prawf y byddai angen eu bodloni er mwyn i wasanaeth cyfnewid fideo brys gael ei gymeradwyo.

Ym mis Tachwedd 2021, bu i ni ymgynghori ar ein hasesiad o wasanaeth arfaethedig Sign Language Interactions yn erbyn ein meini prawf cymeradwyo. Gwahoddwyd ceisiadau erbyn 17 Rhagfyr 2021.

Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Gan gymryd cais ffurfiol Sign Language Interactions (gan gynnwys cyflwyniadau pellach) a'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad i ystyriaeth, rydym wedi penderfynu cymeradwyo gwasanaeth arfaethedig Sign Language Interactions at ddibenion Amod Cyffredinol A5.

Daw'r gymeradwyaeth i rym ar 27 Ionawr 2022 a bydd yn parhau'n weithredol oni bai ein bod yn ei dileu. Er ein bod o'r farn bod gwasanaeth arfaethedig Sign Language Interactions yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo, byddwn yn monitro perfformiad y gwasanaeth unwaith y bydd yn weithredol. Gallwn, ar unrhyw adeg, drwy hysbysu'r darparwr gwasanaeth yn ysgrifenedig, dileu ein cymeradwyaeth os ydym o'r farn nad yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo.

Bydd y rhwymedigaeth a osodir ar ddarparwyr cyfathrebiadau i ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys yn dod i rym ar 17 Mehefin 2022.³ Gall darparwyr cyfathrebu ddefnyddio gwasanaeth Sign Language Interactions er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth hon.

Bydd yn ofynnol i ddarparwyr cyfathrebu hyrwyddo'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys, yn yr un modd ag y mae'n ofynnol iddynt hyrwyddo gwasanaeth cyfnewid testun a SMS brys ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau megis elusennau pobl fyddar i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o fideos brys drwy eu cyhoeddiadau a'u sianeli cyfryngau cymdeithasol.

¹ At ddibenion yr Amod Cyffredinol perthnasol, rydym yn golygu darparwyr gwasanaethau telefoni sefydlog a symudol h.y. gwasanaethau cyfathrebu rhyngpersonol seiliedig ar rifau (pan fo'n dechnegol ymarferol iddynt ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo), a darparwyr gwasanaethau mynediad i'r rhyngwyd.

² Gweithredir y rhwymedigaeth hon drwy Amodau Hawliau Cyffredinol Ofcom, yn benodol Amod Cyffredinol A5.

³ Dyma'r dyddiad y daw nifer o rwymedigaethau diogelu defnyddwyr eraill i rym.

Yn ychwanegol at ein penderfyniad i gymeradwyo gwasanaeth arfaethedig Rhyngweithiadau Iaith Arwyddion, yn y ddogfen hon rydym hefyd yn ymdrin â sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar faterion eraill, gan gynnwys gweithredu'r gwasanaeth.

2. Cyflwyniad a chefnidir

Cefndir

- 2.1 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â materion cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i anghenion dinasyddion anabl. Mae angen i Ofcom hefyd lynu wrth yr egwyddor a geir yn y fframwaith rheoleiddio y dylai fod gan bobl ag anabledau fynediad at gyfathrebiadau brys sydd cystal â'r hyn a brofir gan ddefnyddwyr eraill.
- 2.2 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad ("datganiad mis Mehefin")⁴ yn amlinellu ein penderfyniad i fynnu i ddarparwyr gwasanaethau ffôn sefydlog a symudol⁵ a darparwyr gwasanaethau mynediad i'r rhyngwyd, ddarparu, neu contractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 am ddim ar gyfer defnyddwyr BSL byddar er mwyn galluogi cyfathrebu â'r gwasanaethau brys. Byddai angen i'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys hwn gael ei gymeradwyo gan Ofcom. Gweithredir y gofyniad hwn drwy Amodau Cyffredinol ("AC") a wnaed ar 22 Mehefin 2021 (wedi'u mewnodoso ym Amod Cyffredinol A5 (AC A5)) ac a ddaw i rym ar 17 Mehefin 2022.
- 2.3 Bydd y gwasanaeth cyfnewid fideo brys yn galluogi defnyddwyr BSL byddar i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol â defnyddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr BSL, ac yn galluogi defnyddwyr BSL i ddeall cyfarwyddiadau gan y gwasanaethau brys yn fwy hwylus. Bydd yn golygu defnyddiwr BSL byddar yn arwyddo dros gysylltiad fideo â dehonglydd mewn lleoliad fel canolfan alwadau gan ddefnyddio dyfais gysylltiedig fel ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur personol. Mae'r dehonglydd yn trosi'r hyn a arwyddir i'r person â chlyw (y gwasanaethau brys yn yr achos hwn) ac yn arwyddo'r ymatebion gan y gwasanaethau brys yn ôl i'r defnyddiwr BSL byddar.
- 2.4 Nododd Datganiad Mis Mehefin yr AC a bennwyd o ran cyfnewid fideo brys⁶ a hefyd y meini prawf cymeradwyo y byddai'n rhaid eu bodloni er mwyn i wasanaeth gael ei gymeradwyo gan Ofcom fel gwasanaeth cyfnewid fideo brys ("y Meini Prawf Cymeradwyo").⁷ Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo wedi'u nodi yn Atodiad 1 a detholiad o'r AC perthnasol yn Atodiad 2.
- 2.5 Nododd datganiad mis Mehefin hefyd yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer rhoi'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys ar waith, ac mae wedi'i ailadrodd isod.

Tabl 1: Amserlen weithredu

Amseru disgwyliedig Cam gweithredu	
22 Mehefin 2021	Cyhoeddi meini prawf cymeradwyo terfynol

⁴ [Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.](#)

⁵ Gwasanaethau cyfathrebu rhyngpersonol seiliedig ar rifau pan fo hyn yn dechnegol ymarferol.

⁶ Atodiad 2, Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.

⁷ Atodiad 1, Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.

1 Medi 2021	Dyddiad cau ar gyfer mynegiadau o ddi-ddordeb
1 Hydref 2021	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ffurfiol
Tachwedd 2021	Ymgynghori ar unrhyw gynnig i gymeradwyo gwasanaethau
Ionawr 2022	Cyhoeddi penderfyniad gan Ofcom i gymeradwyo un neu fwy o wasanaethau
Ionawr-Mehefin 2022	Darparwyr wedi'u rheoleiddio'n contractio gyda chyflenwr gwasanaeth cymeradwy, naill ai drwy gyfanwerthwr neu'n uniongyrchol

- 2.6 Ym mis Medi 2021, bu i ni dderbyn cais gan Sign Language Interactions (“SLI”) i gymeradwyo eu gwasanaeth arfaethedig at ddibenion AC A5.
- 2.7 Mae SLI yn disgrifio'i hun fel cwmni sy'n arbenigo mewn darparu cymorth cyfathrebu i bobl fyddar a dall-byddar, gan gynnwys cyfnewid fideo. Esboniodd SLI yn eu cais fod ganddynt brofiad blaenorol o ddarparu gwasanaethau cyfnewid fideo newydd mewn ffordd amserol, er enghraifft wrth weithredu Gwasanaeth Mynediad Iechyd BSL 24/7 SLI mewn cydweithrediad â SignHealth.
- 2.8 Amlinellodd cais SLI, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'n hymgyngoriad,⁸ ei wasanaeth cyfnewid fideo brys arfaethedig yn fanwl. Ymhlith pethau eraill, disgrifiodd SLI y llwyfan y mae'n bwriadu ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys drwy ap a gwefan bwrpasol, a sut mae'n bwriadu darparu'r gwasanaeth.
- 2.9 Yn unol â'r amserlen uchod, bu i ni ymgynghori ym mis Tachwedd 2021 ("Ymgynghoriad mis Tachwedd") ar ein hasesiad o wasanaeth arfaethedig SLI yn erbyn y Meini Prawf Cymeradwyo.⁹ Gwahoddwyd ymatebion erbyn 17 Rhagfyr 2021. Derbyniwyd un ar ddeg o ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Roedd naw o'r ymatebion hyn yn cefnogi ein cynnig neu'n codi dim gwrthwynebiad, tra bod dau yn gwrthwynebu ein cynnig.

Diben y ddogfen hon

- 2.10 Diben y ddogfen hon yw nodi ein rhesymau dros ein penderfyniad i gymeradwyo gwasanaeth arfaethedig SLI. Rydym yn mynd i fanylder yr ymatebion i'n hymgyngoriad a'n rhesymu yng ngoleuni'r ymatebion hynny yn adran 3.
- 2.11 Mae gweddill y ddogfen hon fel a ganlyn:
- Mae ein fframwaith cyfreithiol ar ddiwedd yr adran hon.
 - Mae Adran 3 yn ymdrin â'n cynnig, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniad gan gynnwys y rhesymau dros ein penderfyniad ac ystyriaeth o'r profion cyfreithiol perthnasol.

⁸ Mae cais SLI ar gael yma: [Cyfnewid fideo brys - Cynnig i gymeradwyo gwasanaeth Sign Language Interactions](#)

⁹ [Cyfnewid fideo brys: Cynnig i gymeradwyo gwasanaeth Sign Language Interactions, Ofcom, Tachwedd 2021](#)

- Mae Adran 4 yn nodi trafodaeth ar faterion eraill a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â gweithredu'r rhwymedigaeth ar ddarparwyr cyfathrebu i ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys erbyn 17 Mehefin 2022.

2.12 Mae'r atodiadau fel a ganlyn:

- Atodiad 1 – Meini Prawf Cymeradwyo
- Atodiad 2 – Detholiad o Amod Cyffredinol A5
- Atodiad 3 – Penderfyniad: Cymeradwyo Gwasanaeth Cyfnewid Fideo Brys

Fframwaith cyfreithiol

2.13 Mae'r fframwaith cyfreithiol y mae Ofcom wedi'i ddefnyddio i ddiwygio'r Amodau Cyffredinol i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys wedi'i nodi'n llawn yn Natganiad mis Mehefin.¹⁰

2.14 Mewn perthynas â chymeradwyo gwasanaeth cyfnewid fideo brys, mae adran 49(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") yn nodi'r profion cyfreithiol y mae'n ofynnol i Ofcom eu bodloni wrth ystyried cymeradwyaethau at ddibenion Amod Cyffredinol. Mae'n rhaid i Ofcom beidio â rhoi cymeradwyaeth at ddibenion Amod Cyffredinol oni bai ei bod yn fodlon nad yw gwneud hynny'n arwain at wahaniaethu a'i fod yn gymesur ac yn dryloyw mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.

2.15 Yn ychwanegol at y profion cyfreithiol hyn, mae amrywiaeth o ddyletswyddau statudol ar Ofcom o dan adrannau 3 a 4 y Ddeddf (gan gynnwys ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a'n dyletswydd i roi sylw i anghenion pobl ag anableddau), ac mae hefyd yn ofynnol i ni roi sylw i'r Datganiad o Flaenoriaethau Strategol wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â thelathrebu.¹¹ Rydym yn esbonio yn adran 3 isod sut mae ein penderfyniad yn bodloni'r profion cyfreithiol yn adran 49 y Ddeddf a sut mae ein penderfyniad yn cyd-fynd â'n dyletswyddau statudol.

2.16 Cynhaliodd Ofcom asesiad effaith, at ddibenion adran 7 y Ddeddf, ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, o'i chynigion a'i phenderfyniadau i ddiwygio Amod Cyffredinol A5 er mwyn ei gwneud yn ofynnol darparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys, a phennu'r Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol.¹² Mae ein penderfyniad yn y datganiad hwn, h.y. cymeradwyo gwasanaeth fel gwasanaeth cyfnewid fideo brys yn seiliedig ar y Meini Prawf Cymeradwyo, yn gweithredu'r penderfyniadau hyn ac yn rhoi grym iddynt. Gan hynny, nid yw Ofcom yn ystyried bod angen asesiad effaith pellach.¹³

¹⁰ Gweler paragraffau 2.19 i 2.26.

¹¹ Adran 2B(2)(a) y Ddeddf. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ystyried [y Datganiad o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer telathrebu, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post](#) a gyhoeddwyd gan DCMS. Yn benodol, mae adran 2.4 "Cefnogi defnyddwyr telathrebu, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed" yn darparu y dylai Ofcom barhau i achub ar bob cyfle i wella profiad defnyddwyr yn y sector telathrebu gan gynnwys ar gyfer y rhai ag anableddau.

¹² Gweler: [Ymgynghoriad EECC, Ofcom, Rhagfyr 2019, Ymgynghoriad pellach: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021, Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021](#).

¹³ I gael mwy o wybodaeth am ymagwedd Ofcom at asesu effaith, gweler yr arweiniad, [Llunio polisiau'n well: Ymagwedd Ofcom at asesu effaith](#).

- 2.17 Yn unol ag adran 49(4) y Ddeddf, rydym wedi cydymffurfio â'r gofynion yn adran 49A y Ddeddf sy'n nodi'r broses ymgynghori statudol y mae'n rhaid i Ofcom lynu wrthi wrth gynnig rhoi cymeradwyaeth at ddibenion amod a bennir o dan adran 45. Mae hyn yn cynnwys ystyried pob cynrychiolaeth am y cynnig a wnaed i ni yn ystod y cyfnod ymgynghori.¹⁴
- 2.18 Mae'n ofynnol i Ofcom anfon copi o bob cyfarwyddyd, cymeradwyaeth neu gydsyniad a roddir at ddibenion amod a bennir o dan adran 45 at yr Ysgrifennydd Gwladol.¹⁵

Cymeradwyo Gwasanaeth Cyfnewid Fideo Brys

- 2.19 O dan AC A5, mae'n ofynnol i ddarparwyr Gwasanaethau Mynediad i'r Rhynggrwyd a Gwasanaethau Cyfathrebu Rhyngberonol Seiliedig ar Rifau ddarparu, neu gontractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo brys sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.
- 2.20 Yn Natganiad mis Mehefin, gwnaethom nodi'n fanwl y Meini Prawf Cymeradwyo y byddem yn eu defnyddio i asesu a fyddai gwasanaeth yn cael ei gymeradwyo fel gwasanaeth cyfnewid fideo brys at ddibenion AC A5, ac esboniwyd hefyd:
- a) er mwyn i wasanaeth cyfnewid fideo brys gael ei gymeradwyo gan Ofcom, mae'n rhaid i'r gwasanaeth fodloni'r holl Feini Prawf Cymeradwyo ar sail barhaus;
 - b) mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth sy'n ceisio cymeradwyaeth gyflwyno tystiolaeth i Ofcom y gall fodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo ar sail barhaus; a,
 - c) phan fydd Ofcom wedi cymeradwyo gwasanaeth, gall Ofcom, ar unrhyw adeg, drwy hysbysu'r darparwr gwasanaeth yn ysgrifenedig, dileu ei chymeradwyaeth os yw o'r farn nad yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo.
- 2.21 Rydym yn atgynhyrchu'r Meini Prawf Cymeradwyo yn Atodiad 1 a detholiad o'r AC perthnasol fel y'u nodir yn Natganiad mis Mehefin (gan gynnwys y diffiniad cysylltiedig o wasanaeth cyfnewid fideo brys) yn Atodiad 2.

¹⁴ Adran 49(6) y Ddeddf. At hynny, nid ydym wedi cael ein hysbysu gan yr Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw rwymedigaeth ryngwladol ar ran y Deyrnas Unedig y mae'n rhaid i ni roi sylw iddi (adran 49A(6)(b) y Ddeddf).

¹⁵ Adran 49C(1)(b) y Ddeddf.